**EITEM AR YR AGENDA: 12**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**18fed Mehefin 2007**

**Y DIWEDDARAF AM WEITHGOR YR HYRWYDDWYR**

**Adroddiad ar y cyd gan y Cynghorydd Ted George, Hyrwyddwr Cynorthwyo a Datblygu Aelodau a Rhian Evans, y Swyddog Cyswllt Aelodau**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** Rhoi gwybod i'r aelodau am waith Gweithgor yr Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol a Chynorthwyo a Datblygu Aelodau.

**2.** Ceisio cymeradwyaeth yr aelodau i Ddisgrifiadau o Rolau a Manylion y Person ym Mreinlen Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub.

**Cefndir**

**3.** Yn ei gyfarfod ar Fawrth 19eg 2007, penderfynodd yr Awdurdod Tân ac Achub sefydlu Gweithgor gyda'r bwriad o hyrwyddo a gwella'r cymorth a'r datblygiad ar gyfer aelodau yn unol â gofynion "Breinlen Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau: Dull ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub".

**4.** Yn ogystal â bod yn Weithgor at ddiben Breinlen Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau, penderfynodd yr aelodau gyfuno cylch gwaith y Gweithgor hwnnw gydag un y Gweithgor Hyrwyddwyr Diogelwch Tân.

**Gwybodaeth**

**5.** Cynhaliodd Gweithgor yr Hyrwyddwyr ei gyfarfod cyntaf ar Ebrill 12fed 2007. Yn y cyfarfod hwnnw, dosbarthwyd copïau o gylch gwaith y Gweithgor; Breinlen Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau: Dull ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub; y Disgrifiadau o'r Rolau a Manylion y Person perthnasol; Strategaeth ddrafft ar gyfer Datblygu Aelodau a chopi o Strategaeth Diogelwch Cymunedol 3 blynedd y Gwasanaeth. Hefyd, cafodd yr aelodau gipolwg gan Reolwyr Diogelwch Sirol y Gwasanaeth ar y gwaith diogelwch cymunedol a'r mentrau sy'n mynd ymlaen yn ardaloedd y chwe awdurdod unedol.

**6.** Yn ei gyfarfod dilynol ar Fai 18fed 2007 bu'r aelodau'n ystyried cylch gwaith y Gweithgor a dogfennau drafft perthnasol y Freinlen a ddosbarthwyd yn y cyfarfod blaenorol. Wedi trafodaeth, cytunodd y Gweithgor ar y cylch gwaith, ac mae copi ynghlwm fel Atodiad A er gwybodaeth i'r aelodau. Caiff y cylch gwaith ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gyson ag anghenion yr Awdurdod wrth i'r rheini newid. Er diddordeb, mae'n werth nodi fod rôl ddeublyg y Gweithgor yn gydnaws â gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus dan ei bolisïau yn 'Creu'r Cysylltiadau'. Yn un o'r datganiadau polisi diweddaraf dan yr agenda hwnnw, sef 'Rhannu Cyfrifoldeb – Cyfraniad Llywodraeth Leol i Wella Bywydau Pobl' a gyhoeddwyd ym Mawrth 2007, mae Llywodraeth y Cynulliad yn datgan yn bendant"...byddwn yn cefnogi Siarter Aelodaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac yn annog cynghorau [sy'n cynnwys yr awdurdodau tân ac achub] i annog aelodau i gymryd rhan mewn cynlluniau perfformiad a chloriannu perfformiad, cyfleoedd datblygu ac adroddiadau blynyddol. Rydym yn disgwyl i hyn godi lefelau cyfrifoldeb ac atebolrwydd, yn enwedig o ran gwasanaethau pobl hawdd eu niweidio".

**7.** Yn yr un cyfarfod, derbyniodd y Gweithgor y Strategaeth ar gyfer Datblygu Aelodau, a newid y Disgrifiadau o'r Rolau a Manylion y Person ar gyfer Aelodau Awdurdod Tân ac Achub, a hynny er mwyn ateb anghenion yr Awdurdod. Mae'r dogfennau olaf hynny ynghlwm fel Atodiad B i'r aelodau eu hystyried a'u cymeradwyo. Aeth y Gweithgor ati hefyd i enwebu'r Cynghorydd E C George yn Hyrwyddwr Cynorthwyo a Datblygu'r Aelodau gan argymell y dylai'r chwe aelod fod yn Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol ar ran yr Awdurdod yn ardaloedd eu hawdurdodau unedol hwy eu hunain.

**8.** Ymysg y materion eraill a drafodwyd yn y cyfarfod, roedd effaith a goblygiadau'r ymgyrch i gynyddu nifer yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, tanau bwriadol mewn ysgolion, a chyfranogiad yr aelodau mewn gwaith diogelwch yn lleol. O ganlyniad i'r drafodaeth honno, penderfynwyd y byddai pob aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub yn cael eu gwahodd bob hyn a hyn i gyfarfodydd eu Tîm Diogelwch Sirol lleol, a hynny er mwyn ceisio cynyddu cyfranogiad gan yr aelodau ac er mwyn gwella'r berthynas rhyngddynt.

**9.** O ran llywodraethu corfforaethol da, penderfynwyd y dylai'r Gweithgor gyflwyno adroddiad bob chwarter ynghylch ei weithgareddau i'r Awdurdod Tân ac Achub.

**Argymhellion**

**10.** Bod yr aelodau'n:

**10.1** nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd hyd yn hyn mewn perthynas â Diogelwch Cymunedol a Chynorthwyo a Datblygu Aelodau;

**10.2** cadarnhau penodi'r Cynghorydd E C George yn Hyrwyddwyr Cynorthwyo a Datblygu Aelodau, a bod pob un o'r chwe aelod o'r Gweithgor yn Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol yn ardaloedd eu hawdurdodau unedol hwy; a

**Argymhellion** *(parhad)*

**10.3** chymeradwyo mabwysiadu’r Disgrifiadau o’r Rolau a Manylion y Person fel Disgrifiadau o’r Rolau a Manylion y Person Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.